Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 05.07.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# TECH: Gweminar Trefi Smart 12 Gorffennaf 2022

Mae systemau Tref SMART – sy'n darparu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr – eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi lleol, gyda mwy ar y ffordd. Cynhaliwyd nifer o weithdai Trefi SMART ar draws Gwynedd yn ddiweddar, a bydd y weminar yma, i'w chynnal ar 12 Gorffennaf 2022 (5:30pm-6:45pm), yn rhoi trosolwg o bopeth a drafodwyd yn y gweithdai yma. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3ykvmaD

# LLES: Byw'n Dda, Ffermio'n Gryf 7-13 Gorffennaf 2022

Bydd RCS â'r elusen iechyd meddwl ffermio, Sefydliad DPJ, yn cynnal cyfres o bedwar gweithdy ar-lein rhwng 7-13 Gorffennaf 2022, ar y thema 'Byw'n Dda, Ffermio'n Gryf' fydd yn canolbwyntio ar lesiant ac iechyd y gymuned ffermio. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3NCX9ZK

Mae RCS yn darparu cymorth, hyfforddiant a therapïau i helpu pobl a busnesau ledled Cymru i wella eu llesiant ar gyfer gwaith. Mae gwybodaeth cyffredinol am RCS ar gael ar:

https://rcs-wales.co.uk/cy/

# HYFFORDDIANT: Cynllun Rheoli Cymorth i Dyfu – Diweddariad ar feini prawf cymhwysedd

Mae rhaglen Llywodraeth y DU, Cynllun Rheoli Cymorth i Dyfu, yn rhoi cyfle i arweinwyr busnesau bach gael mynediad at hyfforddiant o'r prifysgolion gorau, gan gynnwys Prifysgol Bangor. Mae cymhwysedd yn cael ei ymestyn i ganiatáu i ddau gyfranogwr o fusnesau sydd â 10 neu fwy o weithwyr i ymuno â'r cynllun. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/more-business-leaders-to-benefit-from-help-to-grow-management-scheme

# CYFLE: Gwobrau Chwaraeon Gwynedd 2022 – noddwyr

Mae Byw'n Iach, sy'n rhedeg 11 Canolfan Hamdden Gwynedd, yn cynnig cyfleoedd noddi i fusnesau lleol yng Ngwobrau Chwaraeon Gwynedd, sydd i'w cynnal yn ddiweddarach yn y

flwyddyn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Alun Jones, Rheolwr Uned Partneriaethau Byw'n Iach, ar:

Alunjones2@bywniach.cymru | 07795 012706

Mae mwy o wybodaeth cyffredinol am Byw'n Iach ar:

https://www.bywniach.cymru/

# DIGWYDDIAD: Cyfres gweminarau Costau Byw

Mae Experian yn partneriaethu gyda YouGov i gynnal dwy weminar fydd yn canolbwyntio ar yr argyfwng costau byw a sut mae hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr.

- Gweminar 1: Hyder Defnyddwyr a Chostau Byw – 14 Gorffennaf 2022 (11:00am)
- Gweminar 2: Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiant gwasanaethau ariannol – 21 Gorffennaf 2022 (11:00am)

Am fwy o wybodaeth am y ddwy weminar, ac i gofrestru, ewch i:

https://www.experian.co.uk/business/webinars/cost-of-living-webinar-series

# YNNI: Cwmni Egino yn Nodi Uchelgais ar gyfer SMR Cyntaf y DU ar Safle Niwclear Trawsfynydd

Mae Cwmni Egino, y cwmni a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ac a sefydlwyd yn 2021 i greu swyddi cynaliadwy a hyrwyddo adfywio economaidd a chymdeithasol drwy hwyluso datblygiadau ar hen safle gorsaf bŵer niwclear Trawsfynydd, yn cychwyn ar raglen uchelgeisiol i ddod â thechnoleg adweithyddion modiwlaidd bach i'r safle, gyda dyddiad targed ar gyfer dechrau'r gwaith adeiladu yn 2027. Mae mwy am hyn ar:

https://www.niauk.org/cwmni-egino-sets-out-ambition-for-uks-first-smr-at-trawsfynydd-nuclear-site/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru